

Safonau'r Iaith Gymraeg – Gohebiaeth

O dan Fesur y Gymraeg [Cymru] 2011 mae dyletswydd statudol ar Brifysgol Aberystwyth i gydymffurfio ag 11 o Safonau sy'n ymwneud â gohebiaeth gyda'r cyhoedd, myfyrwyr a staff. Mae'r Safonau hyn wedi'u gosod er mwyn rhoi'r hawl i aelodau o'r cyhoedd, myfyrwyr a staff ddewis p'un ai i ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg wrth ddelio â'r Brifysgol mewn gohebiaeth.

Derbyn Gohebiaeth yn Gymraeg

- Wrth baratoi ateb ysgrifenedig i ohebiaeth (e-bost neu lythyr) a dderbyniwyd yn Gymraeg, dylai'r ateb fod yn Gymraeg hefyd. Peidiwch ag anfon ateb yn Saesneg i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg (oni bai bod y person a anfonodd yr ohebiaeth yn dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg).
- Dylech barhau i ohebu gyda'r person uchod yn Gymraeg oni bai bod y person yn dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.
- Gweler yr adran ar anfon gohebiaeth i'w gyfieithu.

Dechrau Gohebiaeth gydag Unigolyn (aelod o'r cyhoedd neu fyfyrwr) am y tro cyntaf

- Wrth ohebu gydag unigolyn (aelod o'r cyhoedd neu fyfyrwr) am y tro cyntaf dylech wirio a yw ei dd/dewis iaith gohebiaeth yn hysbys.
- Mae myfyrwyr cofrestredig yn dynodi ym mha iaith y dymnant dderbyn eu gohebiaeth gan y sefydliad, yn Gymraeg neu yn Saesneg, adeg eu cofrestru. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar system AStRA y brifysgol a gellir cael mynediad iddi gan ddefnyddwyr AStRA mewn adrannau.
- Bydd rhai adrannau (megis Datblygu a Chysylltiadau Alumni) yn cadw cofnod o ddewis iaith gohebiaeth aelodau o'r cyhoedd.
- Os nad ydych yn gwybod pa un yw'r dewis iaith ar gyfer gohebu ag unigolyn dylech:-
 - Anfon yr ohebiaeth yn ddwyieithog

Gohebu Gyda Nifer o Bersonau

- Wrth ohebu gyda grŵp o bobl dylech ohebu yn ddwyieithog (oni bai eich bod yn hollol sicr nad oes unrhyw un o'r derbynyddion yn medru'r Gymraeg).
- Gweler yr adran ar anfon gohebiaeth i'w chyfieithu.

Y Datganiad ar Ohebiaeth

- Rhaid i'r Brifysgol ei gwneud hi'n glir i bobl sy'n gohebu â ni ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn peri oedi. Dylid cynnwys y cymal isod ar waelod gohebiaeth swyddogol gan y Brifysgol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.

Gohebu gyda staff

- Cofnodir dewis iaith gohebiaeth staff ar system PoblAber.
- Dylai pob gohebiaeth sydd yn ymwneud â'r materion canlynol fod yn newis iaith gohebiaeth yr aelod o staff
 - materion cyflogaeth
 - cwynion
 - proses ddisgyblu fewnol
- Ar gyfer pob gohebiaeth arall gyda staff gweler y Polisi Defnydd Mewnol *Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith ym Mhrifysgol Aberystwyth*.

Yr Egwyddor o Gydraddoldeb

- Wrth anfon gohebiaeth ddwyieithog, gweithredir yn unol â'r egwyddorion canlynol:
 - Dylid dosbarthu'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd

- Dylai'r naill fersiwn a'r llall fod yn gyfartal â'i gilydd o ran amlygrwydd a diwyg
- Os bydd yr ohebiaeth wedi'i llofnodi, rhaid i'r llofnod ymddangos ar y fersiynau Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd.

Llofnodion E-bost / Manylion Cyswllt

- Dylai llofnodion a'r manylion cyswllt mewn pob e-bost cyffredinol fod yn ddwyieithog.
- Gellir defnyddio llofnodion a manylion cyswllt mewn un iaith yn unig ar gyfer pwrpas penodol e.e. gohebiaeth unigol gydag unigolyn di-Gymraeg.
- Dylai'r Gymraeg ymddangos uchaf, neu i'r chwith i'r Saesneg.
- Er mwyn gwahaniaethu'n glir rhwng y ddwy iaith, gallwch ddefnyddio ffontiau gwahanol i'r naill a'r llall. Fel arall, dylai'r ddwy iaith fod yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder ac amlygrwydd.
- Gellir derbyn rhestr ddwyieithog o enwau swyddfeydd, adrannau, adeiladau a swyddi gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.
- Os ydych yn medru'r Gymraeg anogir chi i gynnwys logo a/neu ddatganiad i ddangos hynny. Gellir lawrlwytho'r rhain o wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.
- Os ydych yn dysgu'r Gymraeg gallwch gynnwys logo i ddangos hynny ar eich llofnod e-bost. Gellir lawrlwytho hwn o wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.
- Wrth gynnwys cyfeiriad gwefan cofiwch gyfeirio'r darllynydd at y fersiynau Cymraeg a Saesneg.
- Ceir enghraifft isod o fanylion cyswllt dwyieithog. Os ydych eisiau fersiwn arbennig ar eich cyfer neu ar gyfer eich swyddfa, cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.

Enghraifft



Dr Gwenno Piette

Swyddog Datblygu'r Gymraeg / Welsh Language Development Officer
Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg / Centre for Welsh Language Services
B40 Hugh Owen
Campws Penglais Campus
Prifysgol Aberystwyth University
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3DY
01970 622044

<http://www.aber.ac.uk/cy/cgg/>

<http://www.aber.ac.uk/en/cgg/>



Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English

Negeseuon Absenoldeb

- Dylai pob ateb e-bost awtomatig/neges absenoldeb fod yn ddwyieithog
- Dylai'r Gymraeg ymddangos uwchben y Saesneg, neu i'r chwith iddi
- Er mwyn gwahaniaethu'n glir rhwng y ddwy iaith, gallwch ddefnyddio ffontiau gwahanol i'r naill iaith a'r llall. Fel arall, dylai'r ddwy iaith fod yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder ac amlygrwydd.
- Ceir enghreifftiau o atebion awtomatig isod. Os ydych eisiau fersiwn penodol, cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.

Enghreifftiau o negeseuon absenoldeb

- | |
|--|
| <ul style="list-style-type: none">• Ni fyddaf yn y swyddfa tan [2/9/18].• <i>I shall be away from the office until [2/9/18].</i> |
| <ul style="list-style-type: none">• Byddaf ar wyliau tan [2/9/18].• <i>I'm on holiday until [2/9/18].</i> |
| <ul style="list-style-type: none">• Nid wyf yn y gwaith ar hyn o bryd.• <i>I am not at work at present.</i> |
| <ul style="list-style-type: none">• Rwyf i ffwrdd o'r gwaith yn sâl ar hyn o bryd.• <i>I'm away from work due to illness at the moment.</i> |
| <ul style="list-style-type: none">• Oherwydd salwch, nid wyf yn y gwaith heddiw. |

<ul style="list-style-type: none"> • <i>Due to illness, I am not at work today.</i>
<ul style="list-style-type: none"> • Oherwydd rhesymau personol, nid wyf yn y gwaith heddiw. • <i>Due to personal reasons, I am not at work today.</i>
<ul style="list-style-type: none"> • Rwyf ar gyfnod mamolaeth hyd [17/12/18]. • <i>I am on maternity leave until [17/12/18].</i>
<ul style="list-style-type: none"> • Rwyf ar gyfnod tadolaeth hyd [17/12/18]. • <i>I am on paternity leave until [17/12/18].</i>
<ul style="list-style-type: none"> • Yn ystod f'absenoldeb, a wnewch chi gysylltu â fy ysgrifenyddes, [AB]. • <i>Please contact my secretary, [AB], during my absence.</i>
<ul style="list-style-type: none"> • Gellir cysylltu â fy ysgrifenyddes/nghydweithiwr drwy ffonio [1234] neu drwy anfon e-bost at ***@aber.ac.uk • <i>My secretary/colleague may be contacted by telephoning [1234] or by e-mailing ***@aber.ac.uk</i>
<ul style="list-style-type: none"> • A wnewch chi gysylltu â swyddog gweinyddol yr adran ar estyniad [1234] neu e-bost ***@aber.ac.uk • <i>Please contact the departmental administrator on extension [1234] or e-mail ***@aber.ac.uk</i>
<ul style="list-style-type: none"> • Fe wnafl ymdrin â phob ymholiad ar ôl imi ddychwelyd i'r gwaith. • <i>I shall deal with all queries upon my return.</i>

Anfon Gohebiaeth i'w Chyfieithu

- Wrth dderbyn gwaith i'w gyfieithu mae Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn blaenoriaethu gohebiaeth. Bydd darnau byrion (llai na 200 gair) yn cael eu dychwelyd o fewn 24 awr a darnau 200 – 600 gair o fewn 48 awr.
- Dylech ddefnyddio system llif gwaith yr Uned Gyfieithu i anfon gwaith i'w gyfieithu :-
 - Cliciwch ar <https://myadmin.aber.ac.uk/f?p=300> a chychwyn creu cais am gyfieithiad trwy glicio ar y botwm gwyrdd '**Creu Cais am Gyfieithiad**'.
- Gallwch ddefnyddio'r e-bost **cyfieithu@aber.ac.uk** neu'r ffôn (est 2045) ar gyfer unrhyw ymholiadau/cwestiynau.
- Mae'r Ganolfan yn cynnig gwasanaeth gwirio hefyd os ydych yn ysgrifennu neges yn Gymraeg ac eisiau bod yn sicr fod y Gymraeg yn gywir.

Cynllunio Gohebiaeth Ddwylieithog – Cymorth Ymarferol

Geiriau allweddol	Key words
Cylchlythyr	Circular
E-bost	E-mail
Ffacs.	Fax.
Llythyr	Letter
Memorandum/Memorandwm	Memorandum
Neges	Message
Geirda	Reference (testimonial)
Llythyr safonol	Standard letter
CYFRINACHOL	CONFIDENTIAL
PERSONOL	PERSONAL
Dyddiad yn ôl y marc post	Date as postmark
Ein cyf:	Our ref:
Eich cyf:	Your ref:
Neges ddwyieithog	Bilingual message
Manylion cyswllt	Contact details
Swyddfa'r Adran	Departmental Office
Llinell uniongyrchol	Direct line
Gwadiad	Disclaimer
Ffôn y Swyddfa	Office Tel.
Ystafell	Room
Ffôn	Tel.
Rhif Ffôn	Tel. No.
Neges awtomatig	Tripnote
Neges absenoldeb	Out of office message
Gwefan	Website
Bwletin wythnosol	Weekly bulletin
Bwletin	Bulletin
Llinellau Pwnc	

- Dylai llinellau pwnc fod yn ddwyieithog.
- Dylai'r Gymraeg ymddangos yn gyntaf, ac yna'r Saesneg.
- Dyma rai enghreifftiau. Cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg am fwy o gyfieithiadau.

Cyfrinachol	Confidential
Dyddiad y cyfarfod nesaf	Date of next meeting
At Sylw	FAO (for the attention of)
Pwysig	Important
Neges bwysig	Important message
Cyfarfod	Meeting
Neges oddi wrth	Message from
Neges oddi wrth Brifysgol Aberystwyth	Message from Aberystwyth University

Fformat

- Er mwyn gwahaniaethu'n glir rhwng y ddwy iaith, gallwch ddefnyddio ffontiau gwahanol os ydych yn dymuno. Fel arall, dylai'r ddwy iaith fod yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder ac amlygrwydd
- Dylai'r Gymraeg fod un ai i'r chwith o'r testun Saesneg neu uwchlaw iddo.
- Os ydych yn dewis cynnwys y Gymraeg yn gyntaf gwnewch yn glir ar y dechrau mai neges ddwyieithog yw hi – gweler yr enghraifft isod.

Enghraifft
[Neges ddwyieithog yw hon. / <i>This is a bilingual message</i> Gweler isod ar gyfer y fersiwn Saesneg. <i>Please see below for the English version.</i>
XXXXXXXXXXXXXXXXXXXXX [Testun yn Gymraeg i'w gynnwys yma / <i>Include Welsh text here</i>]
XXXXXXXXXXXXXXXXXXXXX [Testun yn Saesneg i'w gynnwys yma / <i>Include English text here</i>]

Cyfarchiad	Greeting
Annwyl	Dear
Annwyl Gydweithiwr / Gydweithwyr	Dear Colleague / Colleagues
Annwyl Gyfaill	Dear Friend
Annwyl Bennaeth Adran	Dear Head of Department
Annwyl Athro	Dear Professor
Annwyl Syr / Fadarn	Dear Sir / Madam
Annwyl Fyfyriwr / Fyfyrywyr	Dear Student / Students

Sylwadau agoriadol	Opening remarks
Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Mai.	Thank you for your letter of 26 May.
Gyda golwg ar eich llythyr dyddiedig 12 Medi, ysgrifennaf i gadarnhau'r trefniadau.	With reference to your letter of 12 September, I write to confirm the arrangements.

Sylwadau clo	Closing remarks
Mae pob croeso ichi gysylltu â mi.	Please do not hesitate to contact me.
Gellir cysylltu â mi drwy ffonio est. **** neu drwy anfon e-bost at ***@aber.ac.uk.	I can be contacted by telephoning ext.**** or by e-mailing ***@aber.ac.uk
Gan ddiolch am eich sylw buan i'r mater hwn.	With thanks for your prompt attention to this matter.
Diolch ymlaen llaw.	Thank you in advance
Diolch am eich cydweithrediad.	Thank you for your co-operation
Llawer o ddiolch	Many thanks
Dymuniadau gorau.	Best wishes / regards

Cofion gorau. Cofion cynnes.	
Yn gywir	Yours sincerely

Cynnwys Gwadiad

- Mae angen gwadiad ar rai e-byst. Dylai'r rhain hefyd fod yn ddwyieithog.
- Dylai'r Gymraeg ymddangos uwchben y Saesneg, neu i'r chwith iddi.
- Er mwyn gwahaniaethu'n glir rhwng y ddwy iaith, gallwch ddefnyddio ffontiau gwahanol. Fel arall, dylai'r ddwy iaith fod yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder ac amlygrwydd.
- Awgrymir y testun isod ar gyfer gwadiad. Os ydych eisiau geiriad gwahanol, cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.

Enghraifft

GWADIAD / DISCLAIMER

[This is a bilingual message. Please see English disclaimer below]

Mae'r e-bost hwn ac unrhyw atodiad sydd ynghlwm wrtho, yn gyfrinachol. Os yw wedi eich cyrraedd mewn camgymeriad dilêwch ef oddi ar eich system. Peidiwch â defnyddio na datgelu'r wybodaeth mewn unrhyw ffordd a rhowch wybod imi ar unwaith os gwelwch yn dda. Gall y neges gynnwys barn bersonol nad yw o anghenraid yn farn Prifysgol Aberystwyth, oni ddywedir hynny'n benodol.

This e-mail and any attachment is confidential. If you have received it in error, please delete it from your system, do not use or disclose the information in any way, and notify me immediately. The contents of this message may contain personal views which are not necessarily the views of Aberystwyth University, unless specifically stated.